Cymry Ifanc:Young Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Canllaw i'r Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc

(Mehefin 2009)

Cynulleidfa:

- Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc ac is-grwpiau,
- Comisiynwyr lleol mewn gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg
- Darparwyr gwasanaethau eiriolaeth
- Sefydliadau Plant
- Plant a Phobl Ifanc
- Partïon eraill â diddordeb

Cysylltwch ag: Elin.Gwynedd@wales.gsi.gov.uk, Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad, Is-adran Strategaeth Plant a Phobl Ifanc, ADAPGOS, Llywodraeth Cynulliad Cymru – 01745 538766

Cynnwys Tudalen

Crynodeb 3

Jig-so Eiriolaeth 4

Cyflwyniad i'r Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc 5

Beth mae'r Model ar gyfer darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc yn ei gynnwys? 6

1. Eiriolaeth Mynediad Agored
2. Gwasanaethau Eiriolaeth Arbenigol Integredig
3. Ansawdd Gwasanaethau Eiriolaeth
4. Cynnwys plant a phobl ifanc
5. Gwerthuso gwasanaethau eiriolaeth

Atodiadau

Atodiad 1 – Cefndir a Chynnwys 13

Atodiad 2 – Beth rydym yn ei olygu wrth eiriolaeth? 15

Atodiad 3 – Plant a phobl ifanc bregus 18

Atodiad 4 – Cysylltiadau â Mentrau a Meysydd Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru 19

Atodiad 5 – Ymchwil allweddol a ystyriwyd wrth ddatblygu'r Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc 20

Atodiad 6 – Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant 21

Crynodeb

Mae'r ddogfen hon yn ganllaw i Fodel newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cyflwyno Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru. Mae'n nodi diben y Model a'r hyn sy'n ofynnol wrth baratoi ar gyfer Mesurau, Rheoliadau a Chyfarwyddiadau newydd sydd i fod yn eu lle erbyn 2010 a fydd yn atgyfnerthu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer y Model. Caiff Arweiniad Statudol ei greu ar yr adeg hon er mwyn cefnogi'r partneriaid i weithredu'r Model. Bydd hyn yn cynnwys arweiniad ar gomisiynu.

Cynlluniwyd y canllaw hwn i roi gwybodaeth er mwyn paratoi ar gyfer y newidiadau angenrheidiol, ac o'r herwydd, efallai y bydd rhanddeiliaid yn dymuno ystyried gosod y sylfeini ar gyfer y newidiadau hyn ymhell o flaen llaw.

Gall Eiriolaeth olygu pethau gwahanol i bobl wahanol, yn dibynnu ar brofiadau a dealltwriaeth. Mae llawer yn credu ei fod yn ymwneud â chwynion yn unig. Nid yw hyn yn wir bob amser. Mae eraill yn meddwl mai cyngor ydyw, ond er bod eiriolaeth weithiau'n gallu cynnwys rhywfaint o gyngor, mae'n ymwneud mwy â gwrando a sicrhau bod barn plant a phobl ifanc yn cael ei glywed p'un a yw'r eiriolwr yn cytuno ai peidio. Mae Eiriolaeth yn broses sy'n helpu rhywun i siarad dros ei hun, i gael mynediad i wybodaeth a gwybod am ei hawliau[1], ac i atal, dechrau neu newid rhywbeth. Mae Atodiad 2 yn egluro'r hyn y mae eiriolaeth yn ei olygu yng nghyd-destun y ddogfen hon

Mae'r Jig-so Eiriolaeth ar y dudalen ganlynol yn dangos rhai o'r ffyrdd amrywiol o gael mynediad i eiriolaeth a'r ffyrdd gwahanol o gyflwyno eiriolaeth.

[1] Y 7 Nod Craidd – nodau trosfwaol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc – yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

JIG-SO EIRIOLAETH

Mae sawl ffordd wahanol o ddarparu eiriolaeth, ac mae llawer o bobl yn gallu bod yn eiriolwyr. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth rhwng Eiriolaeth Anffurfiol, Eiriolaeth Ffurfiol, Eiriolaeth Annibynnol/Proffesiynol ac Eiriolaeth Cymheiriaid. Mae'r Jig-so canlynol yn dangos y gwahaniaethau hyn a'r ffordd y maent yn gydgysylltiedig;

Mae Eiriolwr....

- ***Yn eich cefnogi i wneud yn siŵr eich bod yn cael dweud eich dweud***
- ***Yn gwrando arnoch chi***
- ***Yn rhoi hyder i chi***
- ***Yn rhoi gwybodaeth i chi***
- ***Yn rhoi cyngor Ymarferol i chi***
- ***Yn negydu ar eich rhan***

Eiriolaeth Ffurfiol

Weithiau mae'n well cael help i gael mynediad i'ch hawliau trwy weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Pobl yw'r rhain fel arfer sy'n cael eu talu i helpu ac eirioli ar ran plant a phobl ifanc h.y. gweithwyr ieuenctid, athrawon, nyrsys ysgol, gweithwyr chwarae ac ati. Maent yn eich helpu chi i gael gwybodaeth, canfod gwasanaethau, eich helpu i wneud penderfyniadau, canfod ble i gael mwy o help os oes angen, a gwneud yn siŵr bod gennych lais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi.

Eiriolaeth Cymheiriaid

Weithiau mae'n well mynd at blant a phobl ifanc eraill i gael help a chymorth i atal, dechrau neu newid rhywbeth. Mae rhai plant a phobl ifanc yn fwy hyderus nag eraill a byddent yn gyfforddus yn mynegi eich barn chi i bobl eraill. Mewn rhai achosion, mae plant a phobl ifanc wedi cael hyfforddiant ar fod yn eiriolwr cymheiriaid ac yn rhan o gynllun neu brosiect

Eiriolaeth Anffurfiol

Mae'r rhan fwyaf ohonoch yn cael cefnogaeth i gael mynediad i'ch hawliau gan rieni, gofalwyr, aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion, rhieni ffrindiau ac ati. Maent yn eich helpu i fynegi eich barn, yn eich helpu i ddweud sut rydych yn teimlo a gwneud penderfyniadau. Eiriolwyr di-dâl ydynt.

Eiriolaeth Annibynnol/Proffesiynol

Pan fyddwch yn teimlo nad oes unrhyw un yn gwrando arnoch, neu nad ydych yn gallu neu'n cael eich atal rhag cael mynediad i'ch hawliau, efallai y bydd rhai ohonoch eisiau cael eiriolaeth annibynnol/proffesiynol. Mae hyn fel arfer yn cynnwys pobl wedi eu hyfforddi a sydd yn gymwys i'ch helpu chi i leisio eich barn mewn unrhyw benderfyniad sy'n effeithio arnoch chi. Efallai y byddant yn ymdrin â materion penodol am nad ydych yn hapus â'r sefyllfa bresennol ac yn teimlo nad oes unrhyw un yn gwrando arnoch chi. Byddent yn dod gyda chi i gyfarfodydd ac yn gwneud yn siŵr eich bod yn deall beth sydd yn digwydd drwy'r amser, a bod eich barn yn cael ei ystyried. Nid ydynt yn rhoi cyngor, ond yn eich helpu chi i fynegi barn waeth beth yw eu barn nhw.

GALL EIRIOLAETH GYNNWYS

Esbonio	Rhoi Gwybodaeth	Llywio	Gwrando	Cefnogi	Ymddatrys	Cynrychioli	Grymuso	Cynghori	Negydu

CYFLWYNIAD I'R MODEL AR GYFER DARPARU GWASANAETHAU EIRIOLAETH AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC

Mae'r Model newydd hwn ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth wedi cael ei ddatblygu yn dilyn

- adolygiad cynhwysfawr o wasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ar draws lleoliadau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol,
- ymgynghoriad cenedlaethol ar raddfa fawr gyda phlant a phobl ifanc ynglŷn â threfniadau presennol eiriolaeth a chwynion[2],
- canfyddiadau ac argymhellion a wnaed mewn llawer o adroddiadau a restrir yn atodiad 5 ac argymhellion y Grŵp Gorchwyl Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc.
- Ailystyried y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu'r Gwasanaethau Eiriolaeth Plant a amlinellir yn atodiad 6.

Gyda'i gilydd, fe wnaeth y canfyddiadau o'r rhain i gyd yn glir bod angen rhai **egwyddorion sylfaenol** o arfer da ar gyfer y Model hwn ar gyfer Cyflwyno Gwasanaethau Eiriolaeth. Maent fel a ganlyn:

1. Eiriolaeth i fod yn fwy **hygyrch i bob** plentyn a pherson ifanc, ond yn arbennig y rheiny sydd fwyaf bregus
2. Darparwyr eiriolaeth i gael **mwy o annibyniaeth** o'r sefydliadau sy'n comisiynu'r gwasanaeth.
3. Sicrhau bod materion a godir gan blant a phobl ifanc yn cael eu **cymryd o ddifrif**
4. Sicrhau bod materion sy'n cael eu codi gan blant a phobl ifanc yn cael eu **trin mor gyflym â phosibl ac yn effeithiol**
5. Eiriolaeth yn cael ei ystyried fel rhywbeth sy'n **cyfrannu at gyfranogiad** a chael mynediad i hawliau
6. Eiriolaeth i gael ei hyrwyddo trwy **godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth** ymysg plant, pobl ifanc ac oedolion
7. Proses a **chanlyniadau** eiriolaeth i fod yn glir i bawb
8. Mae angen cysondeb a hygyrchedd i **wasanaethau eiriolaeth o ansawdd uchel** ar draws Cymru

Cafodd yr egwyddorion sylfaenol hyn eu hystyried a'u cynnwys wrth ddatblygu'r Model newydd ar gyfer Cyflwyno Gwasanaethau Eiriolaeth.

[2] Adroddiad Red Kite (2005) o Ymgynghoriadau gyda Phlant a Phobl Ifanc ar Drefniadau Newydd ar gyfer Cwynion mewn Lleoliadau Iechyd, Gofal Cymdeithasol ac Addysgol eraill.

BETH MAE'R MODEL AR GYFER DARPARU GWASANAETHAU EIRIOLAETH AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC YN EI GYNNWYS?

1. **Eiriolaeth Mynediad Agored** - **Mynediad** gwell ac ehangach **i bob** plentyn a pherson ifanc i eiriolaeth o bob math (gweler y model ar dudalen 4)**,** a elwir yn **Eiriolaeth Gyffredinol** yn aml. Mae hon yn neges gref yn llawer o'r adroddiadau a'r dogfennau ymchwil a restrir yn Atodiad 4.

   Bydd hyn yn galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad i'r gefnogaeth i fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt a chael llais ynddynt h.y. cefnogaeth i lywio gwasanaethau neu help i ddechrau, newid neu atal rhywbeth. Mae hyn yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru bod eiriolaeth yn dod yn beth cyffredin i bob plentyn a pherson ifanc, yn ogystal â chefnogi'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Mamolaeth[3] sy'n datgan y dylai eiriolaeth annibynnol fod ar gael am ddim i bob plentyn a pherson ifanc. Cyflawnir hyn trwy:

   1.1. Ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu Gwasanaeth Eiriolaeth a Chyngor Cenedlaethol i roi un pwynt cyswllt dros y ffôn neu trwy neges testun, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru – wedi ei sefydlu yn 2009/10. Mae'r Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad ar hyn o bryd yn ymgynghori â phlant a phobl ifanc ac yn llunio opsiynau penodol ar gyfer agweddau gwahanol ar y gwasanaeth hwn. Mae plant a phobl ifanc wedi dangos eu bod eisiau cael cyngor ac eiriolaeth trwy amrywiaeth o ffyrdd gwahanol fel negeseuon testun, gwefannau a thaflenni gwybodaeth mewn siopau gwybodaeth. Caiff yr opsiynau hyn eu hystyried fel blaenoriaeth ar gyfer y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol.

   1.2. Ymrwymiad llawer o Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc i ddatblygu **eiriolaeth** leol/ranbarthol **sy'n agored i bob plentyn a pherson ifanc**. Mae llawer o Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc wedi nodi'r angen i wella ac ehangu gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc fel blaenoriaeth leol. Dylid datblygu hyn yn lleol gyda phlant a phobl ifanc, a dylai fod yn seiliedig ar yr hyn y mae plant a phobl ifanc yn dweud sydd ei angen arnynt a'r hyn y mae'n well ganddynt. Bydd y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn bwysig yn galluogi rôl yn sicrhau bod cydweithredu effeithiol yn digwydd i sicrhau datblygiad eglur y gwasanaeth hwn. Ar hyn o bryd, mae llawer o fodelau yn bodoli; mae rhai Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn ariannu Gwasanaethau Eiriolaeth Mynediad Agored trwy *Cymorth*[4] tra bod partneriaid lleol eraill yn gwneud ymrwymiadau trwy uno cyllidebau craidd. Dylid ystyried datblygu a chomisiynu Gwasanaethau Eiriolaeth Mynediad Agored ar y cyd â chomisiynu gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc bregus (gweler adran 2).

   1.3. **Codi ymwybyddiaeth** a gwella dealltwriaeth o eiriolaeth, hawl pob plentyn a pherson ifanc i gael mynediad i wasanaethau eiriolaeth a rôl pob oedolyn fel eiriolwr ar gyfer plant a phobl ifanc. Caiff hyn ei hyrwyddo fwyaf effeithiol yn lleol trwy Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc a chaiff ei gydlynu'n genedlaethol trwy'r Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad (ADPU). Mae'r ADPU wedi cael ei sefydlu oddi fewn i Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi darpariaeth eiriolaeth effeithiol ac o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc.

[3] http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?OrgID=441
[4] Cymorth – Cynllun Grant LlCC sy'n ariannu ymyriadau ataliol

1.4. Cyrsiau **hyfforddiant** ar eiriolaeth i fod ar gael ar gyfer Eiriolwyr Ffurfiol h.y. oedolion sy'n cael eu talu i helpu ac eirioli ar ran plant a phobl ifanc, fel gweithwyr ieuenctid, athrawon, nyrsys ysgol, gweithwyr chwarae, gweithwyr gofal ac ati. Bydd yr ADPU yn gweithio gyda'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc i gydlynu hyn yn rhanbarthol ac yn lleol.

1.5. Bydd **hyfforddiant** ar gael hefyd ar gyfer Eiriolwyr Anffurfiol[5] os yw'n briodol. Bydd hyn yn wirfoddol, ac ni ddylid eithrio unigolion nad ydynt yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant rhag eirioli ar ran plentyn/person ifanc.

1.6. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn **ymchwilio i ac yn ystyried ffyrdd o gefnogi, hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i** ddarpariaeth Eiriolaeth Mynediad Agored lleol/is-ranbarthol/rhanbarthol. Gall hyn fod trwy wefannau, gwybodaeth, hyrwyddo, codi ymwybyddiaeth, a chyswllt uniongyrchol â Gwasanaeth Cenedlaethol Eiriolaeth a Chyngor Llywodraeth y Cynulliad y bydd angen iddo ategu trefniadau a systemau lleol ar gyfer cyfeirio, a'i wneud yn haws i blant a phobl ifanc gael mynediad i eiriolaeth ac yn hawdd i gyfeirwyr gyfeirio.

1.7. Bydd plant a phobl ifanc yn llywio gwaith Llywodraeth y Cynulliad mewn amrywiaeth o ffyrdd, yn cynnwys cynrychiolaeth ar y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol, ac e-grŵp pellach o blant a phobl ifanc i'w cynghori. Mae'n rhaid i blant a phobl ifanc hefyd lywio gwaith y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc i ddatblygu gwasanaethau eiriolaeth lleol.

2. **<u>Gwasanaethau Eiriolaeth Arbenigol Integredig</u>** – Gwell cydlynu ac eglurder mewn gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer **plant a phobl ifanc bregus**[6].

Ar hyn o bryd mae llawer o wasanaethau gwahanol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc bregus yn comisiynu gwasanaethau eiriolaeth i fod ar gael i blant neu bobl ifanc penodol. Bydd y Model newydd hwn yn darparu **pwynt cyswllt unigol** trwy integreiddio'r gwasanaethau hyn i'w gwneud yn haws i'w llywio gan blant a phobl ifanc bregus a'r rheiny sy'n eu cyfeirio, ac yn haws i'w monitro ar gyfer cysondeb ansawdd ac effeithiolrwydd.

Caiff hyn ei gyflawni trwy:

2.1. Alluogi **pob gwasanaeth eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc bregus o fewn ardal Partneriaeth i gael ei gaffael (prynu)** trwy un asiantaeth arwain mewn ffordd gydlynol, wedi ei hwyluso gan y **Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc**. Nid yw'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn endid cyfreithiol ac yn hyn o beth bydd naill ai angen i un partneriaeth fod yn asiantaeth arwain i gaffael (prynu) neu bydd y partneriaid hynny sy'n gysylltiedig yn trefnu i gaffael y gwasanaethau ar y cyd. Mae'n hanfodol bod plant a phobl ifanc yn credu ac yn ymddiried bod y gwasanaeth eiriolaeth y maent yn cael mynediad iddo yn gwbl annibynnol o'r gwasanaeth y maent eisiau ei atal, ei ddechrau neu ei newid. Mae hwn yn rhan hanfodol o'r Model newydd hwn ac mae'n hanfodol i sicrhau ymddiriedolaeth plant a phobl ifanc. Bydd yn arwain at blant a phobl ifanc yn cael mwy o hyder yn y

[5] Gweler y Jig-so Eiriolaeth

[6] Mae Atodiad 3 yn rhestru grwpiau o blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed sydd â hawl statudol i wasanaeth eiriolaeth yn unol â deddfwriaeth bresennol;

gwasanaeth eiriolaeth oherwydd ei annibyniaeth cynyddol h.y. nad yw'r gwasanaeth eiriolaeth yn cael ei ddarparu neu ei gaffael yn uniongyrchol ac yn unigol gan y gwasanaeth y mae'r plentyn neu'r person ifanc eisiau ei atal, ei ddechrau neu ei newid.

2.2. Bydd angen i asiantaethau comisiynu ym mhob Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc gytuno i uno cyllidebau ar gyfer gwasanaeth eiriolaeth gyda phartneriaid.

2.3. Bydd disgwyl i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc hwyluso **trefniadau comisiynu rhanbarthol neu is-ranbarthol**, gan gwmpasu nifer o bartneriaid. Bydd hyn eto yn cynyddu annibyniaeth gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn ogystal â gweithredu polisi a nodir yn agenda 'Creu'r Cysylltiadau' a 'Chyflawni ar Draws Ffiniau'[7].

2.4. Bydd disgwyl i'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc ddarparu **arweinyddiaeth gadarn, hyrwyddo cyfranogiad partneriaethau a chydlyniaeth** ar draws eu hardal leol ac yn rhanbarthol neu'n is-ranbarthol er mwyn hwyluso comisiynu a chyflwyno gwasanaethau eiriolaeth arbenigol integredig. Gall hyn gynnwys adeiladu ar neu ategu trefniadau partneriaeth comisiynu rhanbarthol presennol.

2.5. Ni ragdybir y bydd y Model newydd yn anochel yn arwain at un darparwr eiriolaeth ar draws rhanbarth neu is-ranbarth, ond bydd angen i'r gwasanaethau gael eu cydlynu'n effeithiol er mwyn sicrhau mynediad hwylus a phriodol i blant a phobl ifanc, a dealltwriaeth glir gan y rheiny sy'n cyfeirio atynt. I gyflawni hyn orau, byddwn yn disgwyl un pwynt mynediad cychwynnol – **dull siop un stop**. Er enghraifft, gall un asiantaeth fod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer consortiwm o ddarparwyr, neu gellir dyrannu eiriolwr i'r plentyn/person ifanc i gydlynu'r cyswllt ag eiriolwyr eraill. Bydd dull cydlynus ar draws y gwasanaethau yn lleihau'r risg y bydd plant a phobl ifanc yn cael eu trosglwyddo o un gwasanaeth i un arall pan fod ganddynt anghenion cymhleth, neu'n cael eu colli wrth drosglwyddo. Mae rhagdybiaeth y bydd plant a phobl ifanc â materion cymhleth sy'n cynnwys mwy nag un asiantaeth yn gallu ymdrin ag un darparwr eiriolaeth.

2.6. Bydd angen i'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc oruchwylio comisiynu'r gwasanaethau eiriolaeth arbenigol integredig o ddarparwr sector annibynnol trydydd parti, neu bartneriaeth / consortiwm o ddarparwyr. Gan nad yw'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc ei hun yn gorff cyfreithiol, bydd angen cytuno ar brif bartner o fewn y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc i arwain ar gomisiynu a chaffael (prynu) neu benderfynu ar drefniadau ar y cyd eraill. Bydd disgwyl i ddarparwyr gwasanaeth eiriolaeth adrodd i'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc sy'n gysylltiedig â'r trefniant rhanbarthol/is-ranbarthol. Er y bydd **monitro a sicrhau ansawdd yn cael ei arwain gan y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc**, bydd yr holl wasanaethau cyhoeddus yn ardal y bartneriaeth yn parhau â chyfrifoldeb i gydweithio i sicrhau darparu gwasanaethau eiriolaeth hygyrch ac o ansawdd uchel.

2.7. Bydd **Llywodraeth y Cynulliad yn darparu offer cyflenwol (rhad ac am ddim) i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc** er mwyn cynorthwyo comisiynu ar y cyd effeithiol, uno cyllidebau, cynllunio a chaffael gwasanaethau eiriolaeth arbenigol integredig. Argymhellir y bydd cylch comisiynu tair blynedd sydd yn ddigon hyblyg i'w ymestyn neu ei leihau (os oes angen) i alluogi sefydlogrwydd a

[7] Gweler Atodiad 5 er gwybodaeth

pharhad ar gyfer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael mynediad i'r gwasanaeth. Disgwylir y bydd plant a phobl ifanc yn gysylltiedig â'r broses gomisiynu.

2.8. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried hyfywedd a'r angen am gomisiynu **gwasanaethau eiriolaeth arbenigol wedi eu targedu** ar sail genedlaethol ar gyfer grwpiau penodol o blant a phobl ifanc neu/a'r rheiny sydd â chwynion/materion cymhleth iawn.

2.9. 2.10 I gyflwyno Model newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cyflwyno Gwasanaethau Eiriolaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ac yn benodol i weithredu'r Gwasanaeth Eiriolaeth Arbenigol Integredig, bydd angen nifer o newidiadau cyfreithiol i alluogi comisiynu trwy'r darparwyr gwasanaeth partner priodol. Gellir cyflawni'r rhan fwyaf o'r newidiadau trwy ddeddfwriaeth eilaidd[8] ond mae un maes eiriolaeth, i gefnogi apeliadau Anghenion Addysg Arbennig (AAA) a hawliadau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd gan blant a phobl ifanc eu hunain, lle argymhellir bod dyletswydd newydd i ddarparu eiriolaeth arbenigol yn cael ei roi ar awdurdodau lleol trwy ddiwygiadau i'r gyfraith, a wneir gan Fesur y Cynulliad[9]. Bydd angen i drefniadau comisiynu sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n dymuno cyflwyno sylwadau neu gŵyn mewn perthynas â lleoliadau mewn iechyd[10] a gofal cymdeithasol[11] yn cael ei chynnwys a bod gwasanaethau'n cael eu caffael gan ddarparwr eiriolaeth trydydd sector annibynnol.

3 **Ansawdd** – Sicrhau **ansawdd a chysondeb** yr eiriolaeth a roddir i blant a phobl ifanc. Cyflawnir hyn yn y ffyrdd canlynol:

3.1 Datblygu a hyrwyddo **Cymhwyster a Gydnabyddir yn Genedlaethol** ar gyfer eiriolwyr plant a phobl ifanc i sicrhau bod digon o allu, sgiliau a phrofiad. Bydd yr ADPU yn gweithio gyda rhanddeilwyr i ddatblygu deunyddiau'r cwrs ar gyfer y cymhwyster a chael achrediad a gydnabyddir ar sail Genedlaethol. Ategir deunyddiau'r cwrs gan Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Bydd elfen yn yr hyfforddiant a'r cymhwyster ar hawliau a chyfranogiad plant. Bydd elfen hefyd ar fathau gwahanol o eiriolaeth fel eiriolaeth cymheiriaid ac eiriolaeth hunangefnogol. Caiff eiriolwyr Annibynnol/ Proffesiynol (y rheiny sy'n cael eu hyfforddi i fod yn eiriolwyr) eu hannog a'u cefnogi i gwblhau'r hyfforddiant hwn. Bydd angen ystyried yn fanylach y trefniadau ar gyfer rhoi cymwysterau o'r fath ar waith fesul cam a'r goblygiadau ariannol ac amser a cheir manylion mewn papur arall.

3.2 Mae Llywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd yn ystyried y posibilrwydd o alluogi eiriolwyr cymwys i **gofrestru gyda sefydliad proffesiynol** a fydd yn rheoleiddio'r gweithlu, yn monitro sgiliau a safonau proffesiynol. Bydd hyn yn cefnogi'r Strategaeth Datblygu Gweithlu Plant a Phobl Ifanc wrth iddi hyrwyddo sgiliau cyffredin a throsglwyddadwy ar gyfer y gweithlu plant a phobl ifanc.

[8] Mae Rheoliadau yn Ddeddfwriaeth Eilaidd sy'n dynodi sut y bydd Mesur neu Ddeddf yn cael ei gweithredu.
[9] Mae Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Mesur y Cynulliad, yn anffurfiol) yn ddeddfwriaeth sylfaenol yng Nghymru. Mae'n gyfraith sy'n benodol i Gymru a wnaed yng Nghymru.
[10] Mae diwygiad yn cael ei wneud i Reoliadau Cyngor Iechyd Cymuned 2004 i egluro y bydd Cynghorau Iechyd Cymuned yn darparu eiriolaeth ar gyfer pobl 18 oed ac yn hŷn. Y bwriad wedyn yw cyfeirio Byrddau Iechyd Lleol i wneud trefniadau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc trwy Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc
[11] Gweler – Adran 26A o Ddeddf Plant 1989

3.3 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ailystyried y **Safonau Cenedlaethol** ar gyfer Gwasanaethau Eiriolaeth sy'n nodi'r polisïau a'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth recriwtio, dewis, hyfforddi ac asesu eiriolwyr addas sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Dylai partneriaethau geisio sicrhau bod unrhyw wasanaeth eiriolaeth y maent yn ei gaffael yn bodloni neu yn gweithio tuag at y Safonau Cenedlaethol, a bydd hyn yn cael ei fonitro. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ailystyried y Safonau Cenedlaethol ac yn ystyried eu defnydd fel offeryn mesur i werthuso gwasanaethau eiriolaeth. Rhoddir mwy o wybodaeth am y Safonau Cenedlaethol yn Atodiad 6

3.4 Bydd angen i Wasanaethau Eiriolaeth fod yn gynhwysol, cynnwys plant a phobl ifanc o ran y ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu, a lle y bo'n briodol, cael eu cyflwyno yn newis iaith y person ifanc, fel Cymraeg neu ieithoedd eraill sy'n cael eu siarad yng Nghymru, neu yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg). Bydd angen i'r gwasanaethau hefyd, lle y bo'n briodol, ystyried anghenion plant a phobl ifanc sydd ag **anghenion ieithyddol, dysgu neu ddiwylliannol** penodol eraill.

3.5 Ni fydd yn bosib bob amser i blentyn neu berson ifanc ddewis eu heiriolwr, yn enwedig os ydynt yn cael mynediad i wasanaethau eiriolaeth annibynnol/proffesiynol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod y plentyn neu'r person ifanc yn gallu newid eu heiriolwr, heb orfod esbonio, os nad ydynt yn hapus neu'n gyfforddus gyda hwynt. Dylai'r broses o newid eiriolwr fod yn syml ac ni ddylai arwain at unrhyw ganlyniadau h.y. oedi o ran cefnogaeth neu ddarparu llai o wasanaeth.

4 **<u>Cynnwys plant a phobl ifanc</u>** yn natblygiad eiriolaeth yng Nghymru. Cyflawnir hyn yn y ffyrdd canlynol:

4.1 Cynnwys plant a phobl ifanc fel **aelodau llawn o'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol** fydd yn cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn dylanwadu ar ddatblygiad pellach eiriolaeth yng Nghymru.

4.2 Cael **e-grŵp pellach o blant a phobl ifanc** fydd yn llywio ac yn rhoi barn ar gyfer y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol. Bydd yr Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad yn arwain ar hyn.

4.3 Cyfrifoldebau cyffredinol Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc i alluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn prosesau cynllunio ac adolygu, sy'n rhaid cynnwys **cyfranogiad wrth gomisiynu** gwasanaethau eiriolaeth.

4.4 Darparwyr eiriolaeth **yn hysbysu'r ADPU ynghylch materion a godwyd** gan blant a phobl ifanc i lywio cynllunio a chomisiynu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Gellid gwneud hyn o bosibl trwy'r Grŵp Darparwyr Eiriolaeth presennol. Bydd yr ADPU yn cysylltu ag adrannau a gwasanaethau amrywiol o fewn a thu allan i Lywodraeth y Cynulliad i'w hysbysu ynghylch y materion hyn ac i gymryd camau i'w datrys yn strategol os yn bosibl.

5 **<u>Gwerthuso gwasanaethau eiriolaeth</u>** ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn **sicrhau ansawdd uchel, tegwch ac effeithiolrwydd**. Gwneir hyn yn y ffyrdd canlynol:

5.1 Mae'n hanfodol bod eiriolwyr yn gwerthuso eu gwaith gyda phlant a phobl ifanc. Efallai na fydd canlyniad eiriolaeth bob amser yn ffafriol i'r plentyn/person ifanc ac felly dylai'r gwerthusiad gynnwys ffocws ar y broses ac a yw'r plentyn/person ifanc yn teimlo eu bod yn rhan gwirioneddol o'r broses ac yn teimlo bod eu llais wedi

cael ei glywed a bod eu pryder/barn wedi cael ei ystyried. Mae gwerthusiad yn rhoi gwybodaeth i bob rhanddeiliad, yn cynnwys plant a phobl ifanc ac eiriolwyr ynghylch sut y mae eu gwasanaeth yn gweithio. Gellir defnyddio'r wybodaeth i nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r meysydd ar gyfer gwelliant. Gall adborth hefyd roi gwybodaeth am faterion mynych sy'n effeithio ar bobl ifanc. Dylid defnyddio gwybodaeth o'r fath i lywio penderfyniadau polisi ac ariannu. Bydd gan yr ADPU hefyd rôl wrth ledaenu arfer da.

5.2 Dylai Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a darparwyr eiriolaeth ystyried y Safonau Cenedlaethol wrth gomisiynu, darparu a monitro gwasanaethau. Bydd angen cytuno ar drefniadau rhanbarthol ac is-ranbarthol ar gyfer gwerthuso gwasanaethau eiriolaeth. Bydd disgwyliad hefyd i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc gynnal gwerthusiad o wasanaethau eiriolaeth, y gellid ei wneud yn is-ranbarthol neu yn rhanbarthol yn dibynnu ar y trefniadau lleol, a bydd Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc werthuso contractau/cytundebau lefel gwasanaeth yn erbyn y Safonau Cenedlaethol.

5.3 Bydd Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cynnal gwerthusiad / cynnydd o'r broses o weithredu'r Model newydd o bosib tua amser y cylch Cynllunio'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc nesaf. Defnyddir y Safonau Cenedlaethol fel offeryn mesur ar gyfer y gwerthusiad. Mae mwy o wybodaeth am y Safonau Cenedlaethol ar gael yn Atodiad 6

5.4 Caiff y Gwasanaeth Eiriolaeth Arbenigol Integredig ar gyfer Plant a Phobl Ifanc bregus ei reoleiddio yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a'i arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Bydd yr ADPU yn ymgynghori â chyrff rheoliadol, yn cynnwys ESTYN, AGGCC ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), i ystyried effeithiolrwydd gwasanaethau eiriolaeth Mynediad Agored a'r canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc yn eu fframwaith cyffredinol ar gyfer arolygu.

Caiff yr angen i bartneriaid gydweithio i gomisiynu a darparu gwasanaethau eiriolaeth ei gefnogi gan y gofynion presennol a nodir yn arweiniad[12] ar Bartneriaethau a Chynlluniau Plant a Phobl Ifanc. Dylid rhoi ystyriaeth i ddileu rhwystrau posibl trwy gydnabod:

- Budd buddsoddi amser mewn datblygu Cytundebau Comisiynu rhanbarthol ac integredig a all gyflwyno arbedion maint;
- Budd buddsoddi amser yn sicrhau gwasanaethau a dulliau newydd i ddarparu eiriolaeth er mwyn sefydlu'n effeithiol i gynnal datblygiad newydd;
- Budd sicrhau bod eiriolwyr yn cwblhau'r hyfforddiant a'r cymhwyster mewn eiriolaeth wrth sicrhau cyflwyno gwasanaeth o ansawdd
- Yr arbedion maint i gael eu cyflawni trwy alluogi gwasanaethau eiriolaeth presennol i gydweithredu.
- Gellir sicrhau budd a chyflawni arbedion maint trwy gyfuno arian a dirprwyo cyfrifoldeb

[12] Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau (LlCC) - wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/**sharedplanningforbetteroutcomes**?lang=cy

- Hyrwyddo newid diwylliant sy'n angenrheidiol ar draws ystod o weithwyr proffesiynol a sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o eiriolaeth.

Mae bod yn ymwybodol o'r sialensiau hyn a'u cynnwys a mynd i'r afael â hwynt wrth gynllunio yn gam cyntaf tuag at eu cyflawni. Mae llawer o'r gwaith hwn eisoes yn cael ei wneud, mewn rhai ardaloedd yn arbennig, ac mae'r angen yn aml i ad-drefnu'r hyn sydd eisoes yn cael ei ddarparu, yn hytrach na datblygu gwasanaeth newydd cyfan.

Mae llawer o feysydd polisi trawsbynciol y mae angen eu hystyried wrth weithredu'r Model. Rhestrir rhai o'r rhain yn Atodiad 4. Mae'r Jig-so Eiriolaeth ar dudalen 14 hefyd yn dangos y ffordd y mae meysydd polisi eraill yn dylanwadu ac yn cael eu dylanwadu gan eiriolaeth.

Bydd lefel y cymorth eiriolaeth yn amrywiol yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, oed a dealltwriaeth plant a phobl ifanc a'r graddau y maent yn fregus, yn ogystal â natur y pryder. Mae'n debygol y bydd angen ystod o ddulliau eiriolaeth, yn arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc bregus iawn sydd ag anabledd neu anawsterau dysgu. Mae'r Model newydd ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn seiliedig ar yr hyn y mae plant, pobl ifanc a darparwyr gwasanaeth wedi dweud, ac rydym yn hyderus y bydd yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau yn y pen draw.

Atodiad 1 – CEFNDIR A CHYNNWYS

Ym mis Ionawr 2004, pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynnig yn y cyfarfod llawn a oedd yn mabwysiadu'n ffurfiol Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sylfaen ar gyfer gwneud polisïau yn y maes hwn. Ers hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'r protocolau cysylltiedig fel sylfaen ar gyfer ei holl waith dros blant a phobl ifanc, ac erbyn hyn mae'n dilyn dull gweithredu sydd wedi'i seilio ar hawliau.

At ddibenion polisi yng Nghymru, caiff CCUHP ei grynhoi yn y **7 Nod Craidd** ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc 0-19 oed, ac i'r rheiny sydd yn 19-25 oed sy'n derbyn gwasanaethau yn unol ag Adran 23C i 23D o Ddeddf Plant 1989 (pobl sy'n gadael gofal) neu wasanaethau cymorth ieuenctid yn unol ag Adran 123 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Mae'r 7 Nod Craidd yn sylfaen ar gyfer Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc lleol sy'n nodi blaenoriaethau a chamau y cytunwyd arnynt i'w cyflawni gan ddarparwyr gwasanaeth yn lleol.

Mae'r tabl isod yn dangos y 7 Nod Craidd:

7 NOD CRAIDD	fersiwn byr
1. Cael dechrau teg mewn bywyd	Ein dechrau
2. Addysg a chyfleoedd dysgu da ar gael	Ein sgiliau
3. Iechyd da a rhyddid rhag trais a chamfanteisio	Ein hiechyd
4. Cyfleusterau chwarae, chwaraeon, hamddden a diwylliant ar gael	Ein Camau
5. Cael eu parchu a chael clust i wrando	Ein llais
6. Cartref diogel a chymuned ddiogel	Ein diogelwch
7. Rhyddid rhag tlodi	Ein dyfodol

Mae Nod Craidd 5 yn ceisio sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys ac yn cael llais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, eu bod yn cael eu ymrymhau a'u cefnogi i ddeall sefyllfaoedd a chymryd rhan weithredol ynddynt, yn y pen draw er mwyn cael mynediad at eu hawliau. Mae arweiniad a rheoliadau cynllunio ar Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc sy'n nodi eu strategaeth ar gyfer cyflwyno'r 7 Nod Craidd yn datgan …..

Mae'n rhaid i blant a phobl ifanc allu dylanwadu ar gynllunio a darpariaeth gwasanaethau sy'n effeithio arnynt. Y ffordd orau i sicrhau bod gan blant lais yw trwy fatrics o eiriolaeth, cyfranogiad a hawliau plant sy'n cael ei brif ffrydio ac sydd wrth graidd pob cynllunio gwasanaeth ……Dylai pob cwyn gael ymateb, a dylai plant a phobl ifanc gael mynediad i wasanaethau eiriolaeth annibynnol o ansawdd yn Gymraeg a Saesneg fel y bo'n briodol.
Para 1.16 Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau LICC Medi 2007

Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Mamolaeth (NSF), a'r Offeryn Archwilio Hunanasesu (SAAT) a ddaw gydag ef, yn rhoi'r sylfaen ar gyfer cynllunio ac adolygu ystod eang o wasanaethau, yn cynnwys addysg, gwasanaethau cymdeithasol a darpariaeth iechyd ar draws y sectorau statudol ac annibynnol. Bydd yr NSF yn cyfrannu at gyflawni saith nod craidd Llywodraeth y Cynulliad i blant a phobl ifanc trwy wella ansawdd a lleihau amrywiadau wrth gyflwyno gwasanaeth trwy osod safonau cenedlaethol. Yn yr NSF, mae un o'r Gweithredoedd Allweddol yn datgan:

Gweithred Allweddol	Sefydliad Cyfrifol
***2.6** Mae **eiriolaeth annibynnol** ar gael am ddim i bob plentyn a pherson ifanc lle mae ei angen ac y gofynnir amdano, yn unol â Safonau Llywodraeth Cynulliad Cymru*	*Byrddau Iechyd Lleol* *Ymddiriedolaethau GIG* *Awdurdodau Lleol* *Comisiwn Iechyd Cymru* *Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru*

Er y bydd rhai plant a phobl ifanc yn hyderus ac yn gallu cael mynediad i'w Hawliau, bydd angen cymorth amrywiol ar eraill gan deulu, gofalwyr, ffrindiau, cymheiriaid, gweithiwr cymorth ieuenctid ac ati a bydd rhai pobl ifanc yn cael budd o wasanaeth eiriolaeth.

Gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yw bod mynediad i eiriolaeth yn dod yn hawl i **BOB** plentyn a pherson ifanc, yn enwedig y rhai hynny sydd fwyaf agored i niwed a gaiff fudd o wasanaeth eiriolaeth effeithiol a fydd yn sicrhau eu bod yn cael llais mewn materion sy'n effeithio ar eu bywydau. Gall gwasanaethau eiriolaeth hefyd ddiogelu'r plant sydd fwyaf agored i niwed yn erbyn ymarfer gwael.

Mae eiriolaeth yn rhan o gontinwwm o gyfranogiad plant a phobl ifanc a dylid ei weld fel un o'r dulliau cymorth yng nghyfranogiad plant a phobl ifanc. Mae hefyd yn hyrwyddo diwylliant o arferion cyfranogol ac yn annog adborth gan ddefnyddwyr y gellir ei ymgorffori wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaeth i wella'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu.

Atodiad 2 – BETH RYDYM YN EI OLYGU WRTH EIRIOLAETH?

Mae gwaith sylweddol i'w wneud yn hyrwyddo ac egluro eiriolaeth a rolau eiriolaeth. Mae hyn yr un mor wir ymysg oedolion ag yw ymysg plant a phobl ifanc, ac mae angen ei wneud ar lefel Genedlaethol a Lleol.

> *Mae eiriolaeth yn ymwneud â siarad dros blant a phobl ifanc. Mae eiriolaeth yn ymwneud â grymuso plant a phobl ifanc i sicrhau bod eu hawliau yn cael eu parchu a'u barnau a'u dymuniadau'n cael eu clywed bob amser. Mae eiriolaeth yn ymwneud â chynrychioli barn, dymuniadau ac anghenion plant a phobl ifanc i wneuthurwyr penderfyniadau, a'u helpu i lywio'r system*.
>
> Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth (2003)

> *Mae gan blant yr hawl i ddweud beth y maent yn credu y dylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac i'w barn gael ei hystyried*
>
> Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r Plentyn – Erthygl 12

> *Pan fydd gan bobl eu llais eu hunain mae'n golygu gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu clywed. Os maent yn cael anhawster yn siarad allan mae'n golygu rhoi help. Os nad oes ganddynt unrhyw lais, mae'n golygu siarad drostynt*
>
> Barnardos

Mae ymchwil ac arweiniad cenedlaethol yn nodi'n gyson bod buddiannau **pob** plentyn a pherson ifanc yn cael eu diogelu, eu cefnogi a'u hyrwyddo'n well wrth gael eiriolwr personol ar ffurf eiriolwr a all eu cefnogi a chymryd rhan weithredol yn eu bywydau[13]. Yn y rhan fwyaf o achosion, y Rhiant/Rhieni neu'r Gofalwr/Gofalwyr sy'n cymeryd y rol yma, ond gall hefyd fod yn berson arall y gellir ymddiried ynddo fel athro, gweithiwr cymdeithasol, person proffesiynol arall neu ffrind, brawd neu chwaer, neu berthynas arall.

Nid yw plant a phobl ifanc yn aml iawn yn ymwybodol o'u hawl i gael eu clywed pan fyddant eisiau newid, atal neu ddechrau rhywbeth, na'u cyfle i gael eiriolwr i'w cefnogi i wneud hynny. Mae'r niferoedd bach sydd yn ymwybodol o hynny yn aml o'r farn eu bod wedi cael profiad gwael, ac mae llawer yn gymysglyd ynghylch y broses a'r canlyniad.

Mae llawer o ffyrdd gwahanol o ddarparu eiriolaeth, a gall llawer o bobl fod yn eiriolwyr. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth rhwng Eiriolaeth Anffurfiol, Eiriolaeth Ffurfiol ac Eiriolaeth Annibynnol/Proffesiynol. Mae'r Jig-so Eiriolaeth canlynol yn disgrifio'r gwahaniaethau hyn;

[13] Safonau Cenedlaethol ar gyfer darparu Gwasanaethau Eiriolaeth (2003) Llywodraeth Cynulliad Cymru – gweler atodiad 5

JIG-SO EIRIOLAETH

Mae sawl ffordd wahanol o ddarparu eiriolaeth, ac mae llawer o bobl yn gallu bod yn eiriolwyr. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth rhwng Eiriolaeth Anffurfiol, Eiriolaeth Ffurfiol, Eiriolaeth Annibynnol/Proffesiynol ac Eiriolaeth Cymheiriaid. Mae'r Jig-so canlynol yn dangos y gwahaniaethau hyn a'r ffordd y maent yn gydgysylltiedig;

Mae Eiriolwr….

- *Yn eich cefnogi i wneud yn siŵr eich bod yn cael dweud eich dweud*
- *Yn gwrando arnoch chi*
- *Yn rhoi hyder i chi*
- *Yn rhoi gwybodaeth i chi*
- *Yn rhoi cyngor Ymarferol i chi*
- *Yn negydu ar eich rhan*

Eiriolaeth Ffurfiol

Weithiau mae'n well cael help i gael mynediad i'ch hawliau trwy broffesiynolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Pobl yw'r rhain fel arfer sy'n cael eu talu i helpu ac eirioli ar ran plant a phobl ifanc h.y. gweithwyr ieuenctid, athrawon, nyrsys ysgol, gweithwyr chwarae ac ati. Maent yn eich helpu chi i gael gwybodaeth, canfod gwasanaethau, eich helpu i wneud penderfyniadau, canfod ble i gael mwy o help os oes angen, a gwneud yn siŵr bod gennych lais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi.

Eiriolaeth Cymheiriaid

Weithiau mae'n well mynd at blant a phobl ifanc eraill i gael help a chymorth i atal, dechrau neu newid rhywbeth. Mae rhai plant a phobl ifanc yn fwy hyderus nag eraill a byddent yn gyfforddus yn mynegi eich barn chi i bobl eraill. Mewn rhai achosion, mae plant a phobl ifanc wedi cael hyfforddiant ar fod yn eiriolwr cymheiriaid ac yn rhan o gynllun neu brosiect

Eiriolaeth Anffurfiol

Mae'r rhan fwyaf ohonoch yn cael cefnogaeth i gael mynediad i'ch hawliau gan rieni, gofalwyr, aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion, rhieni ffrindiau ac ati. Maent yn eich helpu i fynegi eich barn, yn eich helpu i ddweud sut rydych yn teimlo a gwneud penderfyniadau. Eiriolwyr di-dâl ydynt.

Eiriolaeth Annibynnol/Proffesiynol

Pan fyddwch yn teimlo nad oes unrhyw un yn gwrando arnoch, neu nad ydych yn gallu neu'n cael eich atal rhag cael mynediad i'ch hawliau, efallai y bydd rhai ohonoch eisiau cael eiriolaeth annibynnol/proffesiynol. Mae hyn fel arfer yn cynnwys pobl wedi eu hyfforddi a sydd yn gymwys i'ch helpu chi i leisio eich barn mewn unrhyw benderfyniad sy'n effeithio arnoch chi. Efallai y byddant yn ymdrin â materion penodol am nad ydych yn hapus â'r sefyllfa bresennol ac yn teimlo nad oes unrhyw un yn gwrando arnoch chi. Byddent yn dod gyda chi i gyfarfodydd ac yn gwneud yn siŵr eich bod yn deall beth sydd yn digwydd drwy'r amser, a bod eich barn yn cael ei ystyried. Nid ydynt yn rhoi cyngor, ond yn eich helpu chi i fynegi barn waeth beth yw eu barn nhw.

Enghreifftiau o feysydd polisi gwasanaethau Perthnasol a chydgysylltiedig

- Llwybrau dysgu 14-19 – Cymorth Personol
- Cyfranogiad a Hawliau Plant
- Cynhwysiant addysg
- Arweiniad Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gŵynion
- Arweiniad y GIG ar gŵynion
- Cwnsela mewn ysgolion
- Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid

GALL EIRIOLAETH GYNNWYS

Esbonio	Rhoi Gwybodaeth	Llywio	Gwrando	Cefnogi	Ymddatrys	Cynrychioli	Grymuso	Cynghori	Negydu

Nid yw'r mathau gwahanol o eiriolaeth wedi'u gwahanu ac yn aml mae'r ffiniau yn aneglur. Gall plentyn neu berson ifanc ddewis cael mynediad i fwy nag un math o eiriolaeth ar gyfer un mater, neu fynd o un math o eiriolaeth i'r llall nes bod y mater yn cael ei ddatrys.

Mewn eiriolaeth Anffurfiol a Ffurfiol, mae plant a phobl ifanc yn dewis eu heiriolwr eu hunain, rhywun y maent yn gyfforddus i siarad a rhannu eu pryderon â hwynt. Nid yw llawer o eiriolwyr yn sylweddoli eu bod yn eiriolwyr neu'n eirioli dros y plentyn neu'r person ifanc, maent ond yn teimlo eu bod yn rhoi help a chymorth. Mae eraill mewn sefyllfa lle gallent fod yn eiriolwr, ond nid ydynt yn eirioli am nad ydynt yn ei ystyried yn rhan o'u rôl. Yn yr haenau hyn, mae plant a phobl ifanc yn aml yn teimlo bod angen gwybodaeth a chyngor arnynt er mwyn deall eu sefyllfa a chefnogi eu penderfyniadau. Mae cysylltiadau clir rhwng eiriolaeth a gwybodaeth a gwasanaethau cynghori. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi'r prosiect gwybodaeth a chyngor cenedlaethol ar gyfer pobl 11-25 oed, CLIC ar-lein (http://www.cliconline.co.uk), sy'n gweithio'n agos gyda gwasanaethau gwybodaeth a chynghori lleol.

Mewn rhai achosion, byddai'n well gan blant a phobl ifanc gael help gan blant a phobl ifanc eraill y maent yn teimlo sydd yn fwy hyderus ac yn gallu gwrando a mynegi eu barn. Gall y rhain fod yn ffrind neu'n blentyn/person ifanc hŷn. Mewn rhai achosion, bydd plant a phobl ifanc wedi cael hyfforddiant ar fod yn eiriolwr fel rhan o gynllun neu brosiect.

Mae gwasanaeth eiriolaeth annibynnol / proffesiynol yn golygu plant a phobl ifanc yn cael mynediad i eiriolaeth gydag eiriolwyr wedi eu hyfforddi a/neu eiriolwyr cymwys, rhai ohonynt â sgiliau arbenigol, gwybodaeth a lefel o arbenigedd wrth gefnogi er enghraifft; plant anabl, plant sy'n ceisio lloches, plant sydd wedi eu gwahardd o'r ysgol a phlant ag anghenion iechyd meddwl neu anghenion addysgol arbennig. Efallai na fydd plant a phobl ifanc bob amser yn gallu dewis eu heiriolwr yn y math yma o eiriolaeth, ond dylent allu dewis peidio â gweithio gydag eiriolwr penodol heb roi rheswm a heb ganlyniadau negyddol neu oedi yn y gwasanaeth.

Mae plant a phobl ifanc yn aml yn ei chael hi'n anodd cael atebion i gwestiynau syml ynghylch pa gymorth neu gefnogaeth y mae ganddynt hawl iddo. Gall eiriolaeth a'r arfer cyfranogol y mae'n ei ymgorffori newid hyn a rhoi cymorth ar lefelau gwahanol fel bod plant a phobl ifanc yn cael eu hymrymhau ac yn cael hyder ac anogaeth i siarad allan heb ofn neu ganlyniadau neygddol. Gall plant a phobl ifanc fod yn arbennig o fregus pan fydd ganddynt broblemau neu'n teimlo nad yw pethau'n mynd yn iawn, felly mae sicrhau bod eu pryderon yn cael eu datrys yn gyflym ac yn effeithiol ac adrodd yn ôl iddynt yn rheolaidd yn hanfodol mewn eiriolaeth.

Mae'r math o gymorth eiriolaeth sy'n ofynnol gan blant a phobl ifanc yn amrywiol, a bydd yn dibynnu'n aml ar amgylchiadau unigol, anghenion cyfathrebu, a chymhlethdod y sefyllfa neu'r penderfyniad sy'n cael ei wneud. P'un a yw'n cael ei ddarparu gan weithwyr proffesiynol, gwirfoddolwyr, cymheiriaid neu gysylltiadau anffurfiol eraill, mae plant a phobl ifanc yn dweud wrthym yn barhaus am werth cymorth eiriolaeth, yn amrywio o gymorth i fynegi barn i gynrychiolaeth yn ymwneud â phenderfyniadau sy'n newid eu bywydau[14].

Dylai gwrando ac ymateb i blant a phobl ifanc fod yn rhan annatod o ymarfer dyddiol a diwylliant sefydliadol.

[14] A Pithouse et al, Prifysgol Caerdydd (2005) A Study of Advocacy Services for Children and Young People in Wales

Atodiad 3 – PLANT A PHOBL IFANC BREGUS

Mae'r term 'plant a phobl ifanc bregus fel y'i diffinnir mewn Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn Ymwneud â Phlant sy'n Agored i Niwed a Thlodi Plant yn golygu:

- Unrhyw blentyn mewn angen (yn cynnwys plant anabl neu sâl iawn).
- Plant ar ymylon gofal, mewn gofal neu sydd wedi gadael gofal.

Mae'r tabl canlynol yn dangos grwpiau o blant a phobl ifanc sydd â hawl statudol i wasanaeth eiriolaeth (am resymau penodedig fel arfer) yn unol â deddfwriaeth bresennol;

Plant a Phobl Ifanc bregus	Deddfwriaeth yn ymwneud ag eiriolaeth
• Plant a Phobl Ifanc hyd at 18 oed yng ngofal y GIG h.y. Ysbyty neu ofal sylfaenol (meddyg teulu, deintydd ac ati)	**-Dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru yn unol ag Adran 187 Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 – darparu eiriolaeth annibynnol i bobl sy'n dymuno gwneud cwyn am y gwasanaeth iechyd** Mae Cynghorau Iechyd Cymuned (CIC) yng Nghymru eisoes yn darparu gwasanaeth eiriolaeth ar ran Gweinidogion Cymru i unrhyw un sy'n dymuno gwneud cwyn. Fel rhan o newidiadau eraill sy'n cael eu cynnig i rôl CICau, byddant yn parhau i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth cwynion ar gyfer oedolion sy'n dymuno gwneud cwyn am wasanaeth GIG. Bydd angen gwneud trefniadau ar gyfer eiriolaeth plant a phobl ifanc trwy'r Model Newydd trwy'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Y bwriad yw cyhoeddi Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol yn gofyn iddynt wneud y trefniadau hyn.
• Plant a Phobl Ifanc sy'n Gadael Gofal	**Deddf Plant (sy'n gadael Gofal) 2000 –** gall pawb sy'n gadael gofal gael mynediad i wasanaethau eiriolaeth wrth wneud cynrychiolaethau ynghylch gwasanaethau gadael gofal yr awdurdod lleol
• Plant a Phobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal • Plant a Phobl Ifanc mewn angen sy'n cynnwys plant a phobl ifanc ….. o *a phroblemau iechyd meddwl* o *ag anabledd (o fewn diffiniad Deddf Plant 1989 gyferbyn)* o *sydd wedi eu gwahardd o'r ysgol* o *sydd yn geiswyr lloches neu'n ffoaduriaid neu blant ar eu pen eu hunain* o *sydd mewn lloches oherwydd statws digartref* o *sydd yn ddigartref neu mewn llety anfoddhaol* o *oddi cartref mewn llety preswyl, ysgolion, Unedau Diogelwch a lleoliadau gwarchod neu Ysbytai annibynnol* o *sydd yn y System Cyfiawnder Ieuenctid* o *Sydd yn ofalwyr ifanc* o *Sydd wedi bod neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso* o *Sydd yn famau o oed ysgol*	**Deddf Plant 1989 (adran 26A) – darparu eiriolaeth ar gyfer cynrychiolaeth neu gwynion gan blentyn yn ymwneud â gwasanaethau a dderbyniwyd naill ai fel plentyn sy'n derbyn gofal neu blentyn mewn angen. Mae plentyn "sy'n derbyn gofal" yn blentyn sydd naill ai yng ngofal awdurdod lleol neu'n sy'n cael llety yn unol â swyddogaethau awdurdod lleol yn unol â rhan 3 o Ddeddf Plant 1989. Mae'r plant hynny sydd yn "derbyn gofal" yn cael eu nodi yn adran 22. Caiff plentyn "mewn angen" ei ddiffinio yn adran 17 fel a ganlyn - …** (10) At ddibenion y Rhan hon, bydd plentyn yn cael ei ystyried mewn angen os— (a) y mae ef/hi yn annhebygol o gyflawni neu gynnal, neu gael y cyfle i gyflawni neu gynnal, safon resymol o iechyd neu ddatblygiad heb ddarpariaeth gwasanaethau gan awdurdod lleol yn unol â'r Rhan hon; (b) y mae ei iechyd/hiechyd neu ddatblygiad yn debygol o fod wedi ei amharu'n sylweddol, neu ei amharu ymhellach, heb ddarpariaeth gwasanaethau o'r fath; neu (c) y mae ef/hi yn anabl, (11) At ddibenion y Rhan hon, mae plentyn yn anabl os yw ef/hi yn ddall, yn fyddar neu'n fud neu'n dioddef o anhwylder meddyliol neu ag anfantais sylweddol neu barhaol trwy salwch, anaf neu nam cynhenid neu anabledd arall fel y nodir; ac yn y Rhan hon— mae "datblygiad" yn golygu datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiad; ac mae "iechyd" yn golygu iechyd corfforol neu iechyd meddwl.
• Plant a Phobl Ifanc â materion Iechyd Meddwl, yn cynnwys plant a phobl ifanc o dan gadwad	**Deddf Iechyd Meddwl 2007**
• Plant a phobl ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig	**Mesur Addysg (Cymru) (heb ei gytuno eto).** Bydd hwn yn ymestyn hawl plant a phobl ifanc i gael mynediad i eiriolwr i apelio yn erbyn penderfyniad y tribiwnlys AAA yn eu rhinwedd eu hunain

Atodiad 4 – Cysylltiadau â Mentrau a Meysydd Polisi Allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru

- Cyfrannu at gyflwyno 7 Nod Craidd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

- Deddf Plant 2004 sy'n pwysleisio Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc fel y ffordd i gynllunio a chyflwyno gwasanaethau ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc o enedigaeth i 18 oed, neu 25 oed os ydynt yn cael gwasanaethau cymorth neu'n gadael gofal mewn amgylchiadau penodol.

- Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru, sy'n gosod safonau ar gyfer gwella ansawdd gwasanaethau y mae gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd hawl i'w derbyn

- Strategaeth Datblygu Gweithlu Plant a Phobl Ifanc

- Y Wlad sy'n Dysgu a'r Wlad sy'n Dysgu II sy'n nodi gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer dysgu, yr angen i sicrhau bod plant yn cyrraedd eu llawn botensial, a pholisïau i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer dysgu gydol oes

- Cyfrannu at weithredu elfen cymorth personol Llwybrau Dysgu 14-19

- Adran 29 o Ddeddf Addysg 2002 i sefydlu gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion gan ddisgyblion, pan fydd angen cefnogaeth eiriolwr ar ddisgyblion

- Cwynion am Driniaeth a Gofal y GIG – Canllaw ar gyfer gwneud cwyn am y GIG yng Nghymru

- 'Gwrando a Dysgu' : Canllaw i ymdrin â chwynion a chynrychioliadau mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru

- Mae Strategaeth Ieuenctid a Gwasanaethau Ieuenctid yn aml yn gysylltiedig ag eiriolaeth a chefnogi plant a phobl ifanc y mae angen cymorth eiriolwyr arnynt

- 'Craidd Cyffredin ar gyfer Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth'

- Strategaeth Datblygu Gweithlu Plant a Phobl Ifanc

- 'Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau'

- Strategaeth Gwnsela mewn Ysgolion

Atodiad 5 – Ymchwil allweddol a ystiwyd wrth ddatblygu Model Gwasanaeth Newydd ar gyfer darparu Eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc

- **'Ar Goll mewn Gofal'**
  Adroddiad ar y Tribiwnlys Ymchwilio i Gam-drin Plant yng Ngogledd Cymru a gynhaliwyd gan Syr R. Waterhouse. Yr Adran Iechyd (Chwefror 2000).

- **'Peth Rhy Ddifrifol'**
  Adolygiad o'r mesurau i amddiffyn Plant a Phobl Ifanc sy'n cael triniaeth a Gofal gan y GIG yng Nghymru gan yr Arglwydd Carlile. (2002)

- **'Datgan Pryderon'**
  Adroddiad gan Gomisiynydd Plant Cymru. Adolygiad o weithredu cwynion a chynrychioliadau a gweithdrefnau chwythu'r chwiban. Trefniadau ar gyfer darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant. (2003)

- '**Adroddiad Clywch'**
  Adroddiad Archwiliad Comisiynydd Plant Cymru i honiadau o gam-drin plant mewn lleoliad ysgol (2004)

- **'Astudiaeth o Wasanaethau Eiriolaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru.'**
  Adroddiad gan Andrew Pithouse et al, Prifysgol Caerdydd (Gorffennaf 2005)

- **'Nid yw Plant yn Cwyno'**
  Adolygiad Comisiynydd Plant Cymru o gwynion, cynrychioliadau a gweithdrefnau chwythu'r chwiban, a threfniadau ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth mewn awdurdodau addysg lleol yng Nghymru. (2005)

- **'Adroddiad Red Kite ar Ymgynghoriadau gyda Phlant a Phobl Ifanc' – Trefniadau Newydd ar gyfer Ymdrin â Chwynion gan Blant a Phobl Ifanc mewn Iechyd, Gofal Cymdeithasol ac Ysgolion – Canllaw Fframwaith Ymgynghori Plant a Phobl Ifanc**
  Ymchwil ac Ymgynghoriaeth Red Kite – (Gorffennaf 2005)
  (Mae copïau ar gael o'r Uned datblygu a pherfformiad Eiriolaeth – Llywodraeth Cynulliad Cymru)

- **'Creu'r Cysylltiadau – Cyflawni ar Draws Ffiniau: Gweddnewid Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru' –***Ymateb a chynllun gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru i adolygiad Cyflwyno Gwasanaethau Lleol (Tachwedd 2006).*

- **'Ein cadw'n Ddiogel'.**
  Adroddiad ar Ddiogelu Plant sy'n Agored i Niwed. Adolygiad ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. (2006)

Atodiad 6 – Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant

Cafodd y Safonau Cenedlaethol eu datblygu i sicrhau bod yr holl wasanaethau eiriolaeth o'r ansawdd uchaf ac mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.

Mae'r fersiwn llawn ar gael yn
http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/childrenfirst/publications/advocacystandards/;jsessionid=CqLvJQdJJh2GslhMvCv98r2lc2m8v0L3R5mQnv1GjTcW1nyxy3hX!590164483?lang=cy

Ceir crynodeb isod...

Safon Un	Caiff Eiriolaeth ei arwain gan farn a dymuniadau plant a phobl ifanc.
Safon Dau	Mae Eiriolaeth yn hyrwyddo hawliau ac anghenion plant a phobl ifanc.
Safon Tri	Mae gan yr holl Wasanaethau Eiriolaeth bolisïau clir i hyrwyddo materion cydraddoldeb a monitro gwasanaethau er mwyn sicrhau nad yw unrhyw berson ifanc yn dioddef camwahaniaethu ar sail oed, rhyw, hil, diwylliant, iaith, anabledd na chyfeiriadedd rhywiol.
Safon Pedwar	Mae Eiriolaeth yn cael cyhoeddusrwydd da, mae'n hygyrch ac yn hawdd i'w ddefnyddio.
Safon Pump	Mae Eiriolaeth yn rhoi cymorth a chyngor yn gyflym ar gais.
Safon Chwech	Mae Eiriolaeth yn gweithio'n gyfyngol ar gyfer plant a phobl ifanc.
Safon Saith	Mae'r gwasanaeth eiriolaeth yn gweithredu i lefel gyfrinachol uchel ac yn sicrhau bod plant, pobl ifanc ac asiantaethau eraill yn ymwybodol o'i bolisïau cyfrinachedd.
Safon Wyth	Mae Eiriolaeth yn gwrando ar farn a syniadau plant a phobl ifanc er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir.
Safon Naw	Mae gan y Gwasanaeth Eiriolaeth weithdrefn gwyno effeithiol a hawdd i'w defnyddio.
Safon Deg	Caiff Eiriolaeth ei reoli'n dda ac mae'n rhoi gwerth am arian.